



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# SCoRE Cymru

## Cefnogi Ymdrechion Ymchwil Gydweithredol ac Arloesi

**Canllawiau a Chwestiynau Cyffredin**  
(Fersiwn 7 – Mawrth 2023)

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Llinell Gymorth Llywodraeth Cymru Uned Horizon Ewrop  
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru  
ar 03000 259392  
[HorizonEurope@llyw.cymru](mailto:HorizonEurope@llyw.cymru)

## Cynnwys

1. Disgrifiad o SCoRE Cymru .....	2
2. Y gweithgarwch a gefnogir.....	2
3. Lefelau grant a chyfraddau ymyrraeth.....	3
4. Pwy all wneud cais am gymorth SCoRE .....	3
5. Costau cymwys ac anghymwys ac eithriadau sylweddol .....	4
6. Sut i wneud cais am gymorth SCoRE .....	5
6.1 Dyfynbrisiau am waith a gontractiwyd .....	6
7. Y broses arfarnu ac amserlenni .....	6
8. Meini prawf asesu .....	8
9. Sut i hawlio'r grant .....	10
10. Cadw cofnodion, ymdrin â gwybodaeth a GDPR y DU.....	11
11. Rheolau Cymhorthdal y DU .....	14

## 1. Disgrifiad o SCoRE Cymru

Mae SCoRE Cymru yn rhaglen grant sydd â'r nod o ysgogi cyfranogiad Cymru yn rhaglen ymchwil ac arloesi flaenllaw'r Undeb Ewropeaidd, [Horizon Ewrop](#).

Rhaid i gefnogaeth i weithgarwch cynnar ar ymchwil ac arloesi rhyngwladol, megis creu neu atgyfnerthu perthynas waith a all ddatblygu'n gydweithredu ar raddfa fwy, ddangos potensial ar gyfer cyfranogiad mewn rhaglenni ymchwil ac arloesi rhyngwladol, megis Horizon Ewrop, yn y dyfodol.

## 2. Y gweithgarwch a gefnogir

Darperir cyllid i gefnogi'r gweithgarwch canlynol.

Gall amgylchiadau nas cwmpesir gan y categorïau isod gael eu hystyried fesul achos. Anogir ymgeiswyr i drafod eu syniadau gyda'r tîm bob tro.

<b>Datblygu Partneriaeth</b>	<b>Datblygu Cynigion</b>
<p>Costau sy'n gysylltiedig â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Nodi ac adeiladu consortia</li> <li>– Sicrhau cyllid o raglenni ymchwil ac arloesi rhyngwladol</li> <li>– Datblygu prosiectau ymchwil ac arloesi gyda phartneriaid rhyngwladol</li> <li>– Dibenion eraill fel y manylir yn y galwadau penodol yn SCoRE Cymru</li> </ul>	<p>Cost ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Ysgrifennu a/neu ddatblygu tystiolaeth ar gyfer cynigion ariannu ymchwil ac arloesi rhyngwladol</li> <li>– Negodi a chwblhau cytundebau a/neu gontractau consortiwm</li> </ul>
<p><b>Gallai gweithgareddau cymwys eraill sydd â'r nod o gynyddu cyfranogiad Cymru mewn ymchwil ac arloesi rhyngwladol gynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Hyfforddiant</li> <li>– Hyrwyddo ymchwil ac arloesi yng Nghymru, megis trwy ddigwyddiadau</li> <li>– Aelodaeth o rwydweithiau ymchwil ac arloesi rhyngwladol, fel Llwyfannau Technoleg Ewropeaidd, a phresenoldeb ynddynt</li> </ul>	

### 3. Lefelau Grant a chyfraddau ymyrraeth

Datblygu Partneriaeth	Uchafswm grant ar gyfer costau cymwys <sup>1</sup>	Uchafswm cyfradd grant (hyd at) <sup>1</sup>
Pob ymgeisydd cymwys	Dim uchafswm grant, ond mae gwerth am arian yn un o'r meini prawf allweddol ar gyfer pob cais.	100%
Datblygu cynigion	Uchafswm grant ar gyfer costau cymwys	Uchafswm cyfradd grant
Cydgysylltydd	£10,000	75%
Partner, nid cydgysylltydd	£5,000	75%
Gweithgarwch Arall	Uchafswm grant ar gyfer costau cymwys	Uchafswm cyfradd grant (hyd at)
Gweithgarwch arall	'Cysylltwch â ni'	

1. Caiff cyfraddau ymyrraeth grant amrywiol a symiau eu hystyried fesul achos yn seiliedig ar ffactorau megis y tebygolrwydd o lwyddiant, enillion posibl ar fuddsoddiad a risg.

Gellir cynnig cyfraddau ymyrraeth grant amrywiol a symiau mewn cysylltiad â galwadau penodol SCoRE Cymru fel y nodir mewn hysbysiadau galwadau cysylltiedig.

### 4. Pwy all wneud cais am gymorth SCoRE Cymru

Mae cymorth SCoRE Cymru ar gael i sefydliadau yng Nghymru a all gyfrannu at weithgareddau ac amcanion y rhaglen fel y'u nodir yn adrannau 1 a 2 o'r canllawiau hyn.

Efallai y bydd cwmnïau sydd wedi'u cofrestru y tu allan i Gymru ond sy'n weithredol yng Nghymru yn gymwys ar y sail hon, ond efallai y gwrthodir rhoi cyllid i gwmnïau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru ond nad ydynt yn weithredol yng Nghymru.

Os yw ymgeiswyr yn targedu Horizon Ewrop, dylent wirio bod y rhaglen yn iawn iddynt. Mae Horizon Ewrop yn asesu **Rhagoriaeth** (y graddau y mae'r ymchwil/datblygiad arloesol yn mynd y tu hwnt i'r datblygiadau/technoleg fwyaf arloesol), **Gweithredu** (gallu'r sefydliad neu'r cynllun busnes i gyflawni) ac **Effaith** (sut y bydd y prosiect yn gwneud yr hyn sy'n ofynnol gan yr alwad o ran twf y cwmni neu ddatrys heriau sy'n wynebu'r UE).

Os nad oes gennych unrhyw brofiad blaenorol o ymchwil gydweithredol ac arloesedd Ewropeidd byddai'n werth ceisio cyngor yn gyntaf. Mae amrywiaeth o sefydliadau yng Nghymru, y DU ac Ewrop a all roi cyngor ac arweiniad. Cysylltwch ag Uned Horizon Ewrop yn [HorizonEurope@llyw.cymru](mailto:HorizonEurope@llyw.cymru) i drafod eich cynnig yn y lle cyntaf.

## 5. Costau cymwys ac anghymwys ac eithriadau sylweddol

Mae costau sy'n cyfrannu at weithgareddau ac amcanion y rhaglen fel y'u nodir yn adrannau 1 a 2 o'r canllawiau hyn yn gymwys. Gweler yr enghreifftiau isod.

**NODER** - Oni bai eich bod wedi cael cadarnhad ysgrifenedig gan Uned Horizon Ewrop, ni chewch ysgwyddo costau cyn i gais gael ei gymeradwyo, fel arall, nid ydynt yn gymwys o dan gynllun SCoRE Cymru.

<b>Gwariant Cymwys</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>- Teithio a llety rhad a/neu garbon isel</li> <li>- Teithio yn y wlad, gan gynnwys trosglwyddo a pharcio</li> <li>- Trafnidiaeth gyhoeddus , teithio mewn car (ar gyfradd o 45c y filltir neu gyfradd eich sefydliad, p'un bynnag yw'r isaf)</li> <li>- Aelodaeth a/neu ffioedd i gymryd rhan mewn rhwydweithiau ymchwil ac arloesi rhyngwladol, fel Llwyfannau Technoleg Ewropeaidd</li> <li>- Gellir ystyried costau eraill mewn perthynas â theithio fesul achos, er enghraifft cyfieithu neu logi ystafell ar gyfer cyfarfod consortiwm.</li> <li>- Arbenigedd wedi'i gontractio ar gyfer ysgrifennu neu adolygu cynigion.</li> <li>- Arbenigedd wedi'i gontractio i ddatblygu tystiolaeth ar gyfer cynnig. Gall hyn gynnwys tystiolaeth o effaith yr ymchwil arfaethedig neu'r gyfran o'r farchnad y bydd yn ei sicrhau</li> <li>- Darpariaeth wedi'i chontractio i hwyluso cyfarfodydd consortiwm a gweithdai datblygu cynigion.</li> <li>- Arbenigedd wedi'i gontractio ar gyfer cwblhau cytundebau consortiwm a/neu'r cam paratoi ar gyfer grant.</li> <li>- Costau teithio ar gyfer isgontractwyr</li> <li>- Hyfforddiant a chostau hyfforddi ar gyfer cyfweiliadau</li> <li>- Gellir ystyried costau staff fesul achos lle maent yn cynrychioli amser ychwanegol staff a'r "gwerth gorau neu'r unig ffordd o gyflawni amcanion y gweithgaredd" (bydd angen taflenni amser staff a thystiolaeth o'r taliad)</li> </ul>
<b>Gwariant Anghymwys</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>- Costau nad ydynt yn ymwneud ag amcanion SCoRE neu, fel arall, nad ydynt yn cynnig gwerth am arian, megis costau teithio rheolaidd, gweithgarwch masnachu cyffredinol neu ddatblygu technoleg nad yw'n gysylltiedig â nodau SCoRE.</li> <li>- Costau ychwanegol nad ydynt yn cyflawni amcanion SCoRE (e.e. arhosiad estynedig ar ôl cynhadledd).</li> <li>- Nid yw costau bwyd/cynhaliadau yn gymwys ac eithrio pan fydd brechwast yn cael ei gynnwys ym mhri y gwesty neu pan fydd arlwy y gost angenrheidiol ar gyfer cyfarfod consortiwm. Fodd bynnag, os ydych yn gwneud cais am alwad benodol SCoRE Cymru, edrychwch ar amodau'r alwad honno.</li> <li>- Nid yw cwmpasu opsiynau ariannu cychwynnol yn gymwys am fod pwyntiau cyswllt cenedlaethol (<a href="https://www.gov.uk/horizon-2020">https://www.gov.uk/horizon-2020</a>), Rhwydwaith Menter Ewrop (EEN) / Innovate UK EDGE, a sefydliadau eraill yn gallu helpu i nodi galwad berthnasol. Cysylltwch ag Uned Horizon Ewrop am ragor o wybodaeth.</li> </ul>

- Efallai y bydd cymorth mwy priodol ar gael ar gyfer astudiaethau dichonoldeb cyffredinol nad ydynt yn targedu galwad benodol gyda phartneriaid penodol (os bydd yn ofynnol ar gyfer yr alwad) drwy Gynlluniau eraill Lywodraeth Cymru neu Innovate UK - Ffôn: 03000 6 03000  
<https://www.gov.uk/government/organisations/innovate-uk>
- Nid yw costau nad ydynt yn ymwneud â chynnig posibl fel y'i disgrifir yn eich cais cymeradwy i SCoRE yn gymwys, e.e. cynghorwyr cwmni parhaus/a gadwyd.
- Nid yw partneriaid consortiwm prosiect yn gymwys ar y cyfan i fod yn ymgynghorwyr SCoRE ond gellir ystyried eithriadau fesul achos.
- Nid yw costau a ysgwyddir cyn i gais gael ei gymeradwyo yn gymwys oni bai eich bod wedi cael cadarnhad ysgrifenedig gan Uned Horizon Ewrop.
- Costau sydd eisoes wedi eu talu gan gontract cyflogaeth.

Mae'n rhaid defnyddio opsiynau sy'n cynnig **gwerth am arian**, o ystyried amcanion y daith. Mae'n rhaid dilyn polisiau sefydliad yr ymgeisydd. Rydym yn disgwyl i gostau llety fod o fewn cyfraddau meincnod CThEM ac efallai y byddwn yn cyfyngu ein grant i'r cyfraddau hynny oni bai bod cyfiawnhad penodol dros gostau uwch:

<http://www.hmrc.gov.uk/employers/emp-income-scale-rates.htm>

Mae angen cyfiawnhad, ar gyfer mwy nag un person yn teithio o bob sefydliad e.e. dod â sgiliau hanfodol i'r cyfarfod neu fynychu cyfarfodydd cyfochrog.

### Eithriadau sylweddol

Dyma'r costau nodedig sy'n anghymwys am gymorth SCoRE:

- **Mae'r costau yr aed iddynt cyn y dyddiad cymeradwyo yn anghymwys** oni bai bod Uned Horizon Ewrop yn cadarnhau fel arall yn ysgrifenedig. Costau yw ymrwymadau i dalu, fel archebu hedfan a gwesty na ellir eu hadfer yn llawn ar ôl canslo.
- Mae **Treth ar Werth (TAW)** – TAW y gellir ei hadennill yn anghymwys.
- **Gweithgarwch a chostau a allai gael ei gefnogi gan ffynhonnell arall o gyllid.** Mae hyn yn cynnwys arian gan sefydliad yr ymgeisydd yn ogystal â chynlluniau grant eraill a allai fod yn fwy addas. Er enghraifft (nid yw'n rhestr gynhwysfawr):
  - **CRISP** (Rhaglen Cefnogi Arloesedd ac Ymchwil Gydweithredol) **Llywodraeth Cymru.**  
<https://businesswales.gov.wales/innovation/sites/innovation/files/documents/CRISP%202017.pdf>

## 6. Sut i wneud cais am gymorth SCoRE Cymru

Os ydych yn gwneud cais am alwad benodol SCoRE Cymru, dylech edrych ar amodau'r alwad honno.

Ym mhob achos arall, rydym yn eich annog i siarad â ni cyn gwneud cais er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys yn eich cais.

Mae'r ffurflen gais ar gael ar-lein yma: <https://llyw.cymru/score-cymru-ffurflen-gais>

Rydym yn derbyn ceisiadau wedi'u llofnodi ar ffurf ffeiliau pdf wedi'u sganio, y dylech eu hanfon i [HorizonEurope@llyw.cymru](mailto:HorizonEurope@llyw.cymru).

### 6.1 Dyfynbrisiau am waith wedi'i contractio

Rhaid i bob cais sy'n gofyn am waith wedi'i contractio ddarparu un neu fwy o ddyfynbrisiau (Noder - cyfanswm y gwerth yw cost yr arbenigedd a is-gontractiwyd nid y lefel grant SCoRE y gofynnir amdano):

- **Dim ond un dyfynbris sydd ei angen os yw'r contract yn £4,999.99 neu lai**, ond efallai y bydd angen cyflwyno tystiolaeth o arbenigedd y contractwr a dadansoddiad o'r gwaith arfaethedig.
- **Ar gyfer contractau gwerth mwy na £4,999.99, bydd angen tri dyfynbris gan wahanol ymgynghorwyr.** Gall y meini prawf ar gyfer dewis y contractwr buddugol gynnwys ansawdd yn ogystal â phris; bydd angen adroddiad byr arnom i ddangos bod y broses o ddewis contractwr yn deg ac agored. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r un briff i'r ymgynghorwyr ar yr un pryd.

Os na fyddwn wedi ein darbwyllo bod y farchnad wedi'i phrofi i lefel a fyddai'n gwrthsefyll archwiliad, efallai y byddwn yn gofyn am ragor o ddyfynbrisiau neu gyfiawnhad pellach.

Pan fydd gan sefydliad bolisi prynu ysgrifenedig eisoes sy'n sicrhau gwerth am arian ac a fu'n destun proses briodol i'w fabwysiadu gan y sefydliad, rydym yn disgwyl i'r sefydliad ddilyn y polisi hwn, gan gydnabod y gall ddefnyddio trothwyon/gweithdrefnau gwahanol i'r rhai a argymhellwyd uchod

## 7. Y broses arfarnu ac amserlenni

Os ydych yn gwneud cais am alwad benodol SCoRE Cymru, edrychwch ar amodau ac amserlenni'r alwad honno.


Tua phythefnos yw'r amserlen ar gyfer arfarnu, felly, lle bo modd, dylech gyflwyno ceisiadau o leiaf bythefnos cyn y bydd costau cymwys yn debygol o gael eu hysgwyddo.

Rydym yn ymdrechu i brosesu ceisiadau cyn gynted â phosibl, ac mae'n bosibl y bydd amserlenni'n cael eu lleihau os yw'r holl feini prawf asesu yn cael eu dangos yn effeithiol yn y cais.

**NODER** - Oni bai eich bod wedi cael cadarnhad ysgrifenedig gan Uned Horizon Ewrop, ni chewch ysgwyddo costau cyn i gais gael ei gymeradwyo, fel arall, nid ydynt yn gynnwys o dan gynllun SCoRE Cymru.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bydd penderfyniad yn cael ei wneud. Os bydd eich cais yn llwyddiannus bydd e-bost sy'n cadarnhau dyfarniad mewn egwyddor yn cael ei anfon fel y gallwch ysgwyddo gwariant ar eich risg eich hun, yn ddarostyngedig i gytuno i delerau ac amodau llythyr y cytundeb grant.

Rydym yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau nas derbyniwyd gennym o fewn amserlen resymol neu sy'n sylweddol anghyflawn.





## 8. Meini prawf asesu

Caiff pob cais ei asesu fesul achos, yn ôl y meini prawf yn y tabl canlynol. Os ydych yn gwneud cais am alwad benodol SCoRE Cymru, dylech edrych ar amodau'r alwad honno.

Bydd y tîm arfarnu yn ceisio cyngor gan Lywodraeth Cymru yn ôl yr angen i sicrhau gwerth am arian. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau ac i amrywio symiau/cyfraddau'r grant.

Byddwn yn cynnal gwiriadau Dilysrwydd Dyladwy, gan ddefnyddio ffynonellau fel Creditsafe, ARACHNE, y Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol ([CIFAS](#)), Tŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau.

Gall yr Uned hefyd ofyn am gyngor technegol allanol lle bo angen, er enghraifft o bwyntiau cyswllt cenedlaethol, Rhwydwaith Menter Ewrop neu Innovate UK, ond bydd yn gwneud ymdrechion rhesymol i roi gwybod i ymgeiswyr cyn gwneud hynny.

Bydd WEFO, fel rhan o Lywodraeth Cymru, yn gwneud y penderfyniad terfynol ar geisiadau, hawliadau, taliadau a'r holl faterion eraill sy'n ymwneud â SCoRE Cymru. Er ein bod yn gwerthfawrogi adborth i wella ein gwasanaeth, mae ein penderfyniad yn derfynol ac nid oes hawl i apelio.

<b>Meini Prawf Asesu</b>
<p><b>Pob cais:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Graddfa'r cyfraniad at amcanion y rhaglen fel y nodir yn adran 1 uchod.</li> <li>– Bod y costau cymwys a ragwelir yn rhesymol ac wedi'u nodi'n glir.</li> <li>– Bod y gyfradd grant y gofynnir amdani yn dderbyniol ac yn rhesymol ac o fewn y terfynau a nodir yn adran 3 uchod.</li> <li>– Tystiolaeth o'r angen am y grant SCoRE.</li> <li>– Maint yr enillion disgwylidig ar fuddsoddiad i Gymru, gan gynnwys llwybrau a lefelau cyllid posibl sydd ar gael ar gyfer ymchwil ac arloesi yn y dyfodol, h.y. Pa lefel o gyllid sy'n debygol o gael ei dyfarnu i'r ymgeisydd ac unrhyw bartneriaid eraill yng Nghymru.</li> <li>– Pwysigrwydd y partner rhyngwladol, y rhanbarth, y sector neu'r maes ymchwil/arloesi i bolisi Llywodraeth Cymru.</li> <li>– Perthnasedd profiad a chymwysterau'r ymgeisydd.</li> <li>– A yw'r busnes/ tîm ymchwil wedi derbyn gwobrau neu gymorth gan Lywodraeth Cymru, Innovate UK neu gyffwng eraill y llywodraeth neu'r diwydiant.</li> <li>– Bod y sefydliad yn ariannol hyfyw h.y. mae ganddo'r adnoddau angenrheidiol i reoli'r gweithgarwch arfaethedig yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal rhwydweithiau cydweithredol ac adnoddau ariannol i dargedu cyfleoedd ariannu, a phrosiectau dilynol, os caiff ei ddyfarnu.</li> <li>– Cydymffurfiaid â rheolau Cymhorthdal y DU a chaffael, lle y bo'n gymwys.</li> <li>– Ystyriaethau cyllidebol SCoRE Cymru.</li> </ul>
<p><b>Bydd ceisiadau Datblygu Cynnig hefyd yn cael eu hasesu ar y meini prawf canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Bod cyfle ariannu ymchwil ac arloesi rhyngwladol penodol a dyddiad cau cysylltiedig ar gyfer cyflwyno cynigion wedi'u nodi.</li> <li>– Cryfder y dystiolaeth bod cynnig y prosiect wedi'i gwmpasu'n ddigonol, gan gynnwys cyswllt â phwyntiau cyswllt cenedlaethol, cyllideb, ymrwymiad partneriaid a'r amserlen.</li> <li>– Bod digon o amser cyn dyddiad cau'r alwad gysylltiedig ar gyfer datblygu cynnig cymwys.</li> <li>– Y tebygolrwydd o wneud cais, a chael ei ddewis ar gyfer cyfleoedd ariannu ymchwil ac arloesi, gan ystyried unrhyw risgiau a nodwyd gan staff SCoRE yn ystod y broses asesu.</li> <li>– Mae'r cwmni neu'r consortiwm yn amlwg yn gystadleuol yn erbyn yr ymgeiswyr eraill tebygol; gan ystyried y meini prawf gwerthuso a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfle ariannu ymchwil ac arloesi rhyngwladol a nodwyd.</li> <li>– Ei bod yn glir beth yw'r datblygiad arloesol, sut y mae'n mynd y tu hwnt i'r datblygiadau fwyaf diweddar, ei fod yn well na chystadleuwyr posib a bod ganddo lwybr clir i farchnad Ewropeaidd neu fyd-eang, lle bo hynny'n berthnasol.</li> </ul>

## 9. Sut i hawlio'r grant SCoRE

Yn gyntaf, gwnewch yn siŵr eich bod wedi derbyn y cynnig o gyllid drwy lofnodi'r llythyr cynnig a'i ddychwelyd atom o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y llythyr cynnig.

Dylid cyflwyno hawliadau yn brydlon yn dilyn y gweithgaredd a RHAID eu hawlio ddim hwyrach na'r dyddiad cau a nodir yn y llythyr cynnig.

Telir y grant ar ôl i'r wybodaeth a nodir yn atodlen 6 o'r llythyr yn cynnig y grant ac yn unol â'r terfyn(au) amser a nodir yn atodlen 4.

Gall yr wybodaeth gynnwys:

- Prawf o wariant (anfonebau, derbynebaw ac ati gwreiddiol a dalwyd) o'r holl gostau cymwys gan gynnwys datganiad milltiroedd os yw'n berthnasol.
- Ffurflen hawlio wedi'i chwblhau a ffurflen adrodd am gyllid
- Anfoneb wedi'i thalu gan y contractwr yn nodi costau.
- Anfoneb ar bapur â phennawd eich sefydliad, sy'n nodi faint o gyllid y gofynnir amdano gan Lywodraeth Cymru.
- Tystiolaeth o'r gyfradd gyfnewid yn cael ei chymhwyso i'r costau a hawliwyd (e.e. manylion y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad yr ysgwyddwyd y costau).
- Datganiad banc i ddangos tystiolaeth o daliadau.
- Taflenni amser ar gyfer costau staff gyda thystiolaeth o daliad (e.e. sgrinlun o'r gyflogres).
- Tystiolaeth sy'n datgan pam nad oes modd adennill TAW.

Ar gyfer grantiau datblygu cynnig, mae angen cyflwyno un o'r canlynol fel y bo'n briodol:

- Copi o'r cynnig cyflawn fel y'i cyflwynwyd i'r cyfle ariannu a dargedwyd ynghyd â derbynneb syn profi bod y cynnig wedi'i gyflwyno cyn terfyn amser yr alwad.
- Copi o'r cytundeb consortiwm neu'r contract wedi'i lofnodi

Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw 10% o'r swm a hawliwyd neu £500 (p'un bynnag yw'r mwyaf) nes ei fod yn derbyn copi o'r canlyniad perthnasol i'r cynnig ariannu. Y dystiolaeth sy'n ofynnol:

- Copi o'r canlyniad perthnasol e.e. Adroddiad crynodeb gwerthuso'r CE neu e-bost yn cadarnhau'r canlyniad.

Pan fydd yn anymarferol neu'n anghymesur cadw swm yn ôl gallwn ddileu'r gofyniad i'w gadw'n ôl neu gadw'r cyfryw symiau llai ag sy'n briodol yn ein barn ni.

## 10. Cadw cofnodion, ymdrin â gwybodaeth a GDPR y DU

Mae'r Llythyr Cynnig Grant yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â chadw dogfennau ond, yn gyffredinol, mae'n rhaid cadw anfonebau, taflenni amser, derbynebau a chofnodion eraill sy'n ymwneud â gwariant cymwys am 5 mlynedd o ddyddiad unrhyw ddyfarniad sy'n deillio o'r cais hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru am ddefnyddio testun y cytunwyd arno â chi at ddibenion cyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â llwyddiant unrhyw gais a/neu unrhyw lwyddiant dilynol a gewch o bosibl.

### Trosglwyddo gwybodaeth am fy nghais i bartïon eraill â diddordeb:

Wrth asesu eich cais, efallai y bydd Uned Horizon Ewrop yn ceisio cyngor ar ei rinweddau o fewn Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd yr Uned hefyd yn ceisio cyngor technegol allanol pan fo'i angen ond bydd yn hysbysu ymgeiswyr cyn gwneud hynny.

O dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth efallai y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddatgelu faint o grant SCoRE Cymru a ddyfarnwyd ac enw'r derbynydd. Noda cod ymarfer presennol Llywodraeth Cymru y caiff yr holl wybodaeth gofnodedig a ddarperir gan drydydd partïon ei hystyried i'w datgelu os gofynnir amdani. <https://llyw.cymru/rheoli-gwybodaeth>

Caiff yr wybodaeth rydym wedi'i chasglu gennych ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian a chadarnhau pwy ydych. Os canfyddir twyll, mae'n bosibl y gwrthodir rhoi gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth benodol i chi yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am sut y byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data trwy gysylltu â [Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru).

Bydd Llywodraeth Cymru am ddefnyddio testun y cytunwyd arno â chi at ddibenion cyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â llwyddiant unrhyw gais a/neu unrhyw lwyddiant dilynol a gewch, o bosibl, wrth sicrhau cyllid ymchwil/arloesi Ewropeaidd.

### Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) yn ailwampio Deddf Diogelu Data 1998 flaenorol y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiaeth eang o gynlluniau grant er mwyn helpu i gyflawni ein polisiau a chreu Cymru decach a mwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd y data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu'ch cais am arian grant. Caiff yr wybodaeth ei phrosesu fel rhan o'n tasg gyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod

swyddogol i gyflawni rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) a bydd yn ein helpu i asesu p'un a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn i ni roi arian grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau at ddibenion atal twyll a wyngalchu arian a chadarnhau pwy ydych. Mae'r gwiriadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol inni brosesu data personol amdanoch i asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod rhoi'r arian y gwnaethoch gais amdano, neu efallai y byddwn yn rhoi'r gorau i ddarparu arian grant presennol i chi.

Caiff cofnod o unrhyw risg o ran twyll neu wyngalchu arian ei gadw gan yr asiantaethau atal twyll, a gall arwain at eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Rydym yn rhag-weld y gallai data personol gael eu defnyddio yn y ffyrdd canlynol wrth reoli SCoRE Cymru. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr:

- Er mwyn prosesu ceisiadau, bydd angen data megis enw, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol a manylion cyswllt yr ymgeisydd arnom.
- Er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch cyllid, efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth mewn perthynas â'n meini prawf asesu, megis arbenigedd y bobl sy'n teithio a phrofiad unigolion allweddol sy'n ymwneud â'r cais am grant Horizon Ewrop. Os mai buddsoddwyr preifat yw'r unig dystiolaeth o hyfywedd ariannol, efallai y bydd angen inni gael prawf o'u hymrwymiad.
- Pan fyddwch yn cyflwyno dyfynbrisiau am waith wedi'i contractio, gall y dyfynbrisiau gynnwys data personol megis enwau ar docynnau awyren neu wybodaeth am daliadau.
- Adeg hawlio grant bydd angen inni gadarnhau bod y derbynebaw a'r dogfennau eraill a ddarperir gennych yn ymwneud â'r daith (teithiau) neu'r contract a nodir yn y cais. Gellir cynnwys gwybodaeth bersonol mewn derbynebaw o'r fath, megis enw, manylion cyswllt a manylion talu'r unigolyn sy'n prynu.

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data wrth gyflwyno data personol inni. Os na allwch anfon data personol sydd eu hangen arnom er mwyn rheoli arian cyhoeddus yn gyfrifol atom, efallai y byddwn yn gwrthod talu grant.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, caiff eich data personol eu cadw am 7 mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch, fel derbynnydd grant, yn rhydd o'r holl amodau sy'n ymwneud â'r grant a ddyfarnwyd a phan fydd yr holl daliadau wedi'u gwneud. Fodd bynnag, os caiff y cyllid ei ddyfarnu o dan "Esemptiad Symiau Bach o Gyllid", cedwir eich data personol am 10 mlynedd o'r dyddiad y daeth unrhyw gymorth a ddyfarnwyd i ben. Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, cedwir eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu rhoi inni.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i gael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- i ofyn (o dan rai amgylchiadau) inni 'ddileu' eich data
- i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael ragor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'i defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

Cyfeiriad E-bost: [dataprotectionofficer@llyw.cymru](mailto:dataprotectionofficer@llyw.cymru)

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113  
Gwefan: [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

## 11. Rheolau Cymhorthdal y DU

Rhaid i ddyfarniadau cymorth ariannol a roddir gan awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â chyfrifoldebau a nodir yng nghyfundrefn rheoli cymorthdaliadau'r DU ac ymrwymïadau rhyngwladol i fasnach rydd. [Cyfundrefn reoli cymhorthdal y DU – GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk).

Bydd yr holl geisiadau a chymorth ariannol a geisir yn cael eu hasesu yn erbyn y diffiniad o gymhorthdal a nodir yn y Ddeddf (y prawf pedair elfen) a, lle bo cymorth yn bodloni'r diffiniad, bydd y sefyllfa gymhorthdal briodol yn cael ei hystyried yn unol â'r Ddeddf.

**Ar gyfer gweithgarwch aneconomaidd a wneir gan Sefydliadau Addysg Uwch neu'r sector cyhoeddus**, mae'n bosibl na fydd y grant yn bodloni pob un o'r pedwar maen prawf, ac os felly gall darparu cymorth fynd rhagddo drwy'r broses ddyfarnu safonol ar sail 'dim cymhorthdal'.

**Mae darparu cymorth i fusnesau a sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd** drwy gynnig nwyddau neu wasanaethau ar farchnad ("cyfranogwr economaidd") â'r potensial i fodloni'r diffiniad o gymhorthdal.

Mae'r cymorthdaliadau lleiaf wedi eu heithrio rhag y rhan fwyaf o reolau rheoli cymorthdaliadau. Mae Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn caniatáu awdurdodau cyhoeddus i ddyfarnu cymorthdaliadau o werth isel heb orfod cydymffurfio â'r mwyafrif o'r gofynion rheoli cymorthdaliadau. Mae Pennod 7 o Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 yn egluro pryd y gellir defnyddio Cymorth Ariannol Lleiaf, y trothwyon perthnasol, a'r rheolau cronni.

Mae trothwy ariannol i'r Cymorth Ariannol Lleiaf sy'n atal mentrau rhag gallu cael nifer o gymorthdaliadau sydd yn cael eu hystyried yn rhai gwerth isel ar eu pen eu hunain, ond a allai o'u cronni greu ystumiadau pe bai eu gwerth cyfunol yn fwy na'r trothwy. Trothwy y lwfans yw £315,000 o fewn y cyfnod cymwys, sef y:

- rhan o'r flwyddyn ariannol bresennol a aeth heibio (hynny yw, o 1 Ebrill), a'r
- ddwy flynedd ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol bresennol.

Os bydd cymhorthdal yn cael ei ddyfarnu yn seiliedig ar Gymorth Ariannol Lleiaf, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddatgan na fydd y trothwy yn cael ei groesi gan yr ymgeisydd sy'n cael y cymorth ariannol arfaethedig. Mae tabl wedi'i gynnwys ar y ffurflen gais i restru cymhorthdal arall a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod cymwys. Er enghraifft, dylid ystyried y canlynol i gyd:

- Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA)
- cymorth Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyhoeddus (SPEI)
- cymorth a roddir o dan reoliadau cymorth de minimis Gwladol yr UE un ai cyn diwedd y cyfnod gweithredu o 31 Rhagfyr 2020 neu ar ôl y dyddiad hwn, os yn rhinwedd protocol Gogledd Iwerddon; a
- chymorthdaliadau a roddir fel symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) o dan Erthyglau 364(4) neu 365(3) o Gytundeb Masnach a

Chydweithredu'r DU-UE ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu ond cyn i adran hon y Ddeddf ddod i rym.

Ni ellir rhoi Cymorth Ariannol Lleiaf ychwanegol i fuddiolwr sydd eisoes wedi cyrraedd eu trothwy Cymorth Ariannol Lleiaf.

## **Ymholiadau pellach**

Cysylltwch â Thîm Cymru Ystwyth Llywodraeth Cymru ([Cymru.Ystwyth@llyw.cymru](mailto:Cymru.Ystwyth@llyw.cymru)) os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y canllawiau hyn neu unrhyw agwedd arall ar Cymru SCoRE. Gall trafod yn gynnar yn y broses osgoi problemau a gwella'r siawns o gael cais llwyddiannus.